Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Cefnogi elusennau, gwirfoddolwyr a chymunedau

2. Rheoli eich sefydliad

2.7 Rheoli risg

Risg yw'r siawns, beth bynnag ei maint, y bydd y sefydliad yn cael ei niweidio mewn rhyw ffordd o ganlyniad i berygl penodol. Er enghraifft, mae cebl sy'n llusgo'r llawr yn berygl, a gallai arwain at anaf i weithiwr. O ganlyniad, mae risg o anaf i weithiwr, achos cyfreithiol a chostau ariannol uniongyrchol.

Mae rheoli risg yn cael ei ystyried weithiau fel proses gymhleth iawn a all olygu llawer iawn o waith. Er bod rhai risgiau'n gallu bod yn gymhleth, mae ffyrdd o symleiddio'r broses. Bydd angen i gyrff llywodraethu roi digon o amser a gofal er mwyn rheoli risg, ac ni ddylai pryder na fyddant yn cael pethau'n hollol iawn eu troi ymaith. Mae strategaeth reoli risg rannol effeithiol yn llawer iawn gwell na dim un o gwbl a, thrwy fynd drwy'r broses, byddwch wedi cael cipolwg gwerthfawr ar yr amgylchedd y mae'ch sefydliad yn gweithredu ynddo.

Mae rheoli risg yn broses gylchol sydd mewn pedair rhan.

1. Nodi risg

Nodi'r holl ffactorau, digwyddiadau a sefyllfaoedd a allai achosi risg i'r sefydliad.

2. Dadansoddi risg

Didoli, sgorio a gosod risgiau mewn trefn fel sail ar gyfer gwneud penderfyniadau ynglŷn â sut i ddelio gyda hwy, gan ystyried tebygolrwydd ac effaith bosib.

3. Cadw trefn ar risg

Datblygu strategaethau a dulliau i osgoi risgiau neu leihau eu heffaith, a chynlluniau wrth gefn er mwyn rheoli senarios gwael a'r achosion gwaethaf.

4. Monitro risg

Monitro ac adolygu risgiau er mwyn penderfynu a yw'r camau cadw trefn ar risg dan 3 uchod yn effeithiol, ac a yw eu natur a/neu eu tebygolrwydd wedi newid dros gyfnod o amser.

Mae llawer o ddewisiadau er mwyn cadw trefn ar risg.

Osgoi

Peidio â gwneud y gweithgaredd y nodwyd bod risg yn gysylltiedig ag ef.

Atal
Gweithredu er mwyn lleihau'r tebygolrwydd o golled, e.e. gosod meddalwedd gwrthfeirysau ar gyfarpar TGCh. Mae datblygu polisïau mewnol cadarn yn bwysig er mwyn atal risg.

Lleihau
Gweithredu er mwyn lleihau canlyniadau colled pe bai'n digwydd, e.e. gosod system chwistrellu er mwyn arafu lledaeniad tân.

Derbyn
Mae'n bosib y bydd y sefydliad yn barod i dderbyn rhai risgiau, e.e. lle bo cost camau ataliol yn llawer mwy na thebygolrwydd ac effaith bosib y risg. **Trosglwyddo**
Trosglwyddir atebolrwydd am y risg i gorff arall. Gallai hyn fod drwy drefniadau contract, e.e. is-gontractwr yn derbyn y risgiau sy'n gysylltiedig â chyflawni contract. Neu, trosglwyddir risgiau sy'n deillio o golled ariannol i gwmni yswiriant allanol. Cyfrifoldeb y corff llywodraethu yw gwneud yn siŵr bod gan y sefydliad yswiriant digonol.

Mae'r polisïau yswiriant cyffredin yn cynnwys:
- Yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ar gyfer anaf, colled neu ddifrod a achosir i Drydydd Parti oherwydd esgeulustod sefydliad.
- Yswiriant Indemniad Proffesiynol sy'n amddiffyn rhag hawliadau yn ymwneud ag esgeulustod yn deillio o gyngor neu wybodaeth a roddwyd gan y sefydliad.
- Yswiriant Costau Cyfreithiol sy'n ymwneud â chostau cyfreithiol penodol a all godi wrth amddiffyn neu ymwneud â mathau penodol o achosion, e.e. anghydfod cyflogaeth.
- Yswiriant Ffyddlondeb sy'n cynnig amddiffyniad rhag anonestrwydd staff neu wirfoddolwyr.
- Yswiriant Damweiniau a Salwch sy'n ymwneud â thalu tâl salwch i staff neu gael staff eraill yn eu lle.
- Yswiriant Eiddo a Chyfarpar ar gyfer adeiladau, cynnwys a/neu eiddo symudol.

Datblygu strategaeth
Mae datblygu strategaeth ar gyfer rheoli risg yn rhan hanfodol o gadw trefn ar risg (cam 3). Dylai:

- Restru a threfnu risgiau sydd wedi eu nodi a'u dadansoddi'n flaenorol (camau 1 a 2).
- Nodi pa gamau a gymerir i reoli risgiau a nodi adnoddau a ddyrannwyd er mwyn rheoli risgiau.
- Pennu swyddogaethau a chyfrifoldebau ar gyfer rheoli risg.
- Nodi sut a phryd y bydd angen monitro ac adolygu risgiau (cam 4).

Dylai'r strategaeth risg fod yn gysylltiedig â chynllun strategol a chynllun busnes y sefydliad a dylai gael ei hadolygu pan wneir newidiadau i'r dogfennau hyn a phan fydd newidiadau sylweddol yn yr amgylchedd gweithredu'n dod i'r amlwg.

Mwy o wybodaeth

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk

Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
www.hse.gov.uk

Sefydliad Rheoli Risg
Ffôn: 020 7709 9808
www.theirm.org

Ymwadiad
Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Tŷ Baltig, Sqwâr Mount Stuart, Bae Caerdydd, Caerdydd, CF10 5FH
Elusen Gofrestredig *218093*

Ffôn: 0800 2888 329 help@wcva.org.uk
Ffacs: 029 2043 1701 www.wcva.org.uk

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru:16/03/2011

Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk